Community Foundation Wales

Sefydliad Cymunedol Cymru



Cronfa Croeso Cenedl Noddfa

# Cefnogi pobl sy'n chwilio am noddfa yng Nghymru

# Cynnwys




01 Croeso

02 Cenedl Noddfa

03 Lansio'r apêl

05 Llunio'r gronfa

06 Lansio'r gronfa

07 Y gronfa mewn rhifau

08 Creu ymdeimlad o berthyn

09 Cysylltu trwy gân

10 Ysgolion Noddfa

11 Darparu lle diogel

12 Mae cymaint mwy i'w wneud o hyd



# Welcome
# Croeso

Mae gan Gymru hanes hir a balch o gynnig lloches i bobl sy'n ffoi rhag gwrthdaro.

Fel gwlad sy'n ymfalchïo yn y syniad o Groeso, mae wedi'i gwreiddio'n ddwfn ynom trwy ein hymdeimlad o gymuned i gymryd i mewn a chefnogi'r rhai sydd angen tipyn o help yn eu hamser o angen.

Dechreuodd y syniad ar gyfer Cronfa Croeso Cenedl Noddfa ychydig yn ôl pan nodwyd bod angen llawer mwy o gefnogaeth ar bobl sy'n ffoi o'r rhyfel yn Affganistan a chyrraedd Cymru. Roedden ni wrthi'n sefydlu'r gronfa hon pan dorrodd rhyfel allan yn Wcráin a daeth yn amlwg bod angen lot fwy o gefnogaeth na'r hyn a ragwelwyd yn wreiddiol.

Yn hytrach na sefydlu cronfa sy'n mynd i'r afael â'r angen brys yn unig, nôd Sefydliad Cymunedol Cymru bob amser yw cymryd safbwynt mwy hirdymor o ran sefydlu atebion cyllido ar gyfer cymunedau Cymru.

Felly sefydlwyd Cronfa Croeso Cenedl Noddfa fel cronfa waddol, gan gefnogi anghenion pobl a oedd yn chwilio am noddfa heddiw tra'n sicrhau bod y gefnogaeth hon yn parhau i fod ar gael yn y dyfodol.

Sefydlwyd y gronfa wedi proses wrando drylwyr ac mae wedi'i llunio gan farn yr elusennau sy'n gweithio yn y sector yma a'r bobl y maen nhw'n eu cefnogi.

Rydym yn ddiolchgar iawn i holl gefnogwyr y gronfa - ein cefnogwyr hael  a'r partneriaid sy'n cefnogi pobl ar lawr gwlad.

Diolch,

Richard Williams

**Prif Weithredwr**

# Cenedl o Noddfa



Mae gan Gymru hanes hir o gefnogi ffoaduriaid a cheiswyr lloches, gan gynnwys yn fwyaf diweddar rhai o Wcráin, Affganistan, Hong Kong a Syria.

Yn 2019, datganodd Llywodraeth Cymru y byddai Cymru'n dod yn 'Genedl Noddfa' gyntaf y byd. Mae'n well gan y Mudiad Dinas Noddfa ddefnyddio'r term 'pobl sy'n ceisio noddfa' yn lle ffoaduriaid a cheiswyr lloches yn y rhan fwyaf o gyd-destunau, gan fod y ffocws ar bobl yn gyntaf yn hytrach na'u statws mewnfudo.

Mae'n pwysleisio bod pobl yn chwilio am noddfa (diogelwch ac amddiffyn), nid yn benodol lloches. Roedd y term yn hanfodol wrth gyfeirio at y rhai oedd yn ffoi o'r gwrthdaro diweddaraf yn Affganistan ac Wcráin, pan mai diogelwch ac amddiffyn oedd prif flaenoriaeth y rhai oedd yn cyrraedd y DU.

## Ffoadur

Person y tu allan i'w gwlad, sydd ag ofn erledigaeth sydd wedi ei sylfaenu achos eu hil, crefydd, cenedligrwydd, aelodaeth o grŵp cymdeithasol neu farn wleidyddol benodol.

## Ceisiwr lloches

Person sydd wedi croesi ffin ryngwladol i chwilio am amddiffyniad ond nad yw eu gais am statws ffoaduriaid wedi'i benderfynu eto.

Wrth i'r newyddion am y gwrthdaro yn Affganistan dorri ym mis Awst 2021, fe gyhoeddodd Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol Llywodraeth Cymru, Jane Hutt, ddatganiad yn amlinellu "ymateb neilltuol Cymreig i wacáu Affganistan",gydag awdurdodau cyhoeddus Cymru'n "gweithio mor galed a phosib i chwarae rhan llawn yn ymateb y DU".

O fewn saith mis, mae ymosodiad Rwsia ar Wcráin wedi achosi dadleoli degau lawer o filoedd o bobl Wcráin o'u cartrefi. Dywedodd  Sophie Howe, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru ar y pryd: "Rydym oll wedi'n llorio gan y digwyddiadau trasig sy'n datblygu yn Wcráin ac mae'n hanfodol ein bod yn gwneud popeth o bosibl i helpu'r rhai sydd wedi'u rhoi mewn sefyllfa mor beryglus a thorcalonnus."

# Lansio'r *apêl*



Mae'r mewnlifiad yn Affganistan a'r newyddion am luoedd Rwsia yn yn ymosod ar Wcráin, ond yn ddwy enghraifft o'r cyfnod diweddar pan mae pobl o bob cwr o'r byd wedi cael eu gorfodi i ffoi ar fyr rybudd, heb eu heiddo a heb syniad beth sy'n eu hwynebu ar eu taith o'u blaenau.

Mewn ymateb i anghenion brys y bobl a ddadleolwyd gan y gwrthdaro hyn ac sy'n cyrraedd Cymru, ochr  yn ochr â'r rhai sydd yma'n barod, sefydlodd Sefydliad Cymunedol Cymru Gronfa Croeso Cenedl Noddfa.

Ym mis Mawrth 2022, lansiwyd apêl am roddion gan y cyhoedd yn ogystal â gan y sector preifat a'r trydydd sector, i gefnogi sefydliadau sy'n gweithio gyda'r rhai sy'n chwilio am noddfa yng Nghymru, nawr ac yn y dyfodol.

Yn fuan iawn, roedd Jane Hutt, Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol Llywodraeth Cymru, yn cydnabod yr angen uniongyrchol a dwys ac, ar ran Llywodraeth Cymru, wedi gwneud rhodd o £1m i'r gronfa.

Wrth sôn am effaith y gronfa, dywedodd Jane Hutt:

> “Pan lansiwyd ein gweledigaeth Cenedl Noddfa yn 2019, roeddem yn gobeithio ysbrydoli llawer o bobl eraill i ymuno â ni ar y daith tuag at gymdeithas fwy cynhwysol. Mae sefydlu Cronfa Croeso Cenedl Noddfa a'r grantiau a ddyfarnwyd yn dangos y weledigaeth gydweithredol hon. Bydd y prosiectau hyn o fudd mawr i bobl sy’n ceisio noddfa a’u cymunedau lletyol ledled Cymru.”

Arweniodd yr apêl at lif o haelioni ar draws holl rhannau o Cymru, gan unigolion a Sefydliadau.

Derbyniodd y gronfa roddion hael gan Moondance Foundation, Cronfa LNB, Y Groes Goch Brydeinig, Cronfa Elusennol y Maen ac Elusen Gwendoline ac Margaret Davies.

Masonic Charitable Foundation

The Moondance Foundation

British Red Cross

> "Mae Elusen Gwendoline a Margaret Davies yn cymeradwyo amcanion Cronfa Croeso yn gryf, ac mae'n credu y dylai Cymru barhau yn ei thraddodiad hir o gynnig noddfa i'r rhai sy'n ffoi rhag gwrthdaro ledled y byd."

Derbyniodd cefnogaeth gan eglwysi ledled Cymru, gan gynnwys Eglwys Saint Peters ym Mhontardawe, Grŵp Cefnogi Ffoaduriaid Tref-y-clawdd, a Phentref a Chymuned Llantrisant Fawr.



Roedd staff o'r Senedd a Llywodraeth Cymru wedi cynnal gêm bêl-droed i godi arian, a chodwyd £1,105 i'r gronfa.

# Llunio'r gronfa



Rhoddwyd cyfran o'r arian a godwyd ar gyfer Cronfa Croeso Cenedl Noddfa mewn grantiau i elusennau, grwpiau cymunedol a sefydliadau yn gweithio gyda phobl a ddadleolwyd gan wrthdaro sydd wedi cyrraedd Cymru yn ddiweddar.

Mae gweddill yr arian wedi'i neilltuo i Gronfa Croeso Cenedl Noddfa er mwyn ein galluogi i ymateb ag uniongyrchedd yn dilyn trychineb fel rhyfel, ond hefyd i sicrhau bod y rhai sy'n cael eu heffeithio gan wrthdaro yn y dyfodol yn gallu derbyn cymorth.

Er mwyn sicrhau bod y cyllid ar gael yn syth i sefydliadau sy'n cefnogi ffoaduriaid a cheiswyr lloches yn mynd lle roedd gwir ei angen, sefydlwyd arolwg i ni ymgynghori â sefydliadau Cymreig yn uniongyrchol gan  gefnogi pobl a ddadleolwyd gan wrthdaro a chwilio am noddfa i asesu eu hanghenion uniongyrchol a pharhaus.

## Ymgynghori â'r sector

Roedd dysgu o'r arolwg yn hynod werthfawr ac amlygodd yr angen am fwy o gapasiti o fewn sefydliadau sefydledig, sydd eisoes wedi'u gwreiddio mewn gwaith gyda phobl sy'n chwilio am noddfa, a oedd yn profi cynnydd enfawr yn y galw ar eu gwasanaeth.

Tynnodd sylw hefyd at bwysigrwydd grwpiau cefnogol sy’n deall anghenion pobl a oedd wedi cael profiadau trawmatig, a allai fod wedi gadael anwyliaid ac a allai fod angen y gefnogaeth o gyfieithwyr a gofal therapiwtig arbenigol i'w helpu i setlo i'w bywyd newydd a dechrau ar eu taith i adferiad.

## Llunio'r meini prawf

Roedd yn bwysig bod y gronfa hon yn gallu ychwanegu gwerth at gyllid arall oedd ar gael felly roedd yn hanfodol osgoi dyblygu ac i arian fynd yn uniongyrchol i le roedd tystoliaeth o fylchau, neu ddim digon o arian ar gael i ddiwallu angen cynyddol.

# Lansio'r *gronfa*



Roedd ymatebion i'r arolwg yn ein hysbysu bod angen arian i grwpiau oedd yn darparu gwasanaethau i:

## Cynyddu'r gallu

o sefydliadau sy'n cefnogi pobl sy'n chwilio am noddfa i integreiddio o fewn eu cymunedau lleol i adeiladu ymdeimlad cryfach o berthyn.

## Mynd i'r afael â'r trawma

yn wynebu pobl sy'n chwilio am noddfa drwy ddarparu cymorth emosiynol i wella iechyd meddwl a lles.

## Y broses ymgeisio

Cafodd pob cais ei asesu gan ein swyddogion grantiau profiadol gyda gwiriadau diwydrwydd dyladwy a gynhaliwyd ar bob ymgeisydd yn ogystal ag ymweliadau asesu ag ymgeiswyr sy'n gwneud cais am gyllid tair blynedd.

## Panel o arbenigwyr

Recriwtwyd panel o bobl gyda phrofiad byw, profiad o weithio yn y sector wirfoddol yng Nghymru a gwybodaeth uniongyrchol a dealltwriaeth o anghenion pobl sy'n chwilio am noddfa. Bu nhw yn helpu i wneud argymhellion i ariannu ceisiadau a gadarnhawyd wedyn gan ymddiriedolwyr Sefydliad Cymunedol Cymru.

# Cysylltu trwy gân

Nôd Côr Byd Un Oasis (OOWC) yw cysylltu pobl sy’n chwilio am noddfa yng Nghaerdydd drwy gân, symudiad a sgwrs â’r gymuned ehangach.

> “Gallwch deimlo'r hud wrth i chi gerdded i mewn i'r ystafell, batri maint poced o ganeuon a rhythmau o bob cwr o'r byd. Ieithoedd a diwylliannau gwahanol – mae'n drydanol. Y byd yn dod yn un.”

Mae’r OOWC wedi darparu achubiaeth i grŵp amrywiol o ffoaduriaid a cheiswyr lloches sy’n cynrychioli dros 30 o genhedloedd, ac mae llawer ohonynt yn wynebu ailgychwyn eu bywydau mewn gwlad ac iaith newydd.

Derbyniodd OOWC arian tuag at eu prosiect Lleisiau Noddfa a Grooves er mwyn cynyddu cyfleoedd i fwy o bobl gymryd rhan yn eu gweithdai canu, ysgrifennu caneuon, dawns a symud; eu galluogi i wneud ffrindiau newydd ac adeiladu cymuned ynghyd.



# Creu ymdeimlad o berthyn

> "Mae gennym ni le i ddod nawr i fod gyda phobl eraill ac i deimlo'n rhan o rywbeth."

Mae UARE UK yn cynnig cefnogaeth ymarferol ac emosiynol i helpu ceiswyr lloches a ffoaduriaid gan gynnig croeso, cefnogaeth a lle diogel.

Cawsant grant gan Gronfa Croeso Cenedl Noddfa i helpu ariannu nifer o fentrau newydd i groesawu a chefnogi ffoaduriaid a cheiswyr lloches yn ardal Wrecsam.

Yn ogystal â darparu cymorth ymarferol fel gwersi Saesneg, bwyd a dillad, mae eu hwb 'Cartref' newydd hefyd yn darparu lle i ffoaduriaid a cheiswyr lloches ddod at ei gilydd dros fwyd a cherddoriaeth i leihau arwahanrwydd, helpu gydag integreiddio, dysgu am dreftadaeth ddiwylliannol ei gilydd a gwneud ffrindiau newydd mewn gofod diogel.

Sefydlwyd Cronfa No More Missing Out UARE UK i ddarparu cyfleon i blant teuluoedd sy'n ceisio lloches gael yr un profiadau â'u cyfoedion, gan eu helpu i ffitio i mewn a theimlo ymdeimlad o berthyn.

Mae eisoes wedi helpu ariannu teithiau i lan y môr, y sŵ a'r sinema i deuluoedd na fyddai fel arall yn cael cyfle i ymweld â'r llefydd hyn.



# Ysgolion o noddfa

Mae gan Dinas Noddfa rwydwaith o 13 o grwpiau cymunedol a arweinir gan wirfoddolwyr ledled Cymru, sy'n cefnogi pobl sy'n chwilio am noddfa i integreiddio i'w cymuned leol a meithrin ymdeimlad o berthyn.

> "Mae staff yr ysgol wedi fy helpu i deimlo eu bod nhw'n cael cefnogaeth ac yn ddiogel yn cyrraedd Cymru fel rhiant sengl."

Cawsant arian tuag at gyflogi Cydlynydd i gefnogi cydweithio ar draws y rhwydwaith o grwpiau. Un o amcanion y rôl hon oedd cefnogi'r rhaglen Ysgolion Noddfa.

Gyrrwyd taith Ysgol Gymunedol Doc Penfro i fod yn Ysgol Noddfa gan ddyfodiad teulu o Wcráin a ymunodd â'u hysgol a'r nifer fechan o fyfyrwyr oedd wedi ffoi rhag rhyfel.

Daeth Ysgol Gymunedol Doc Penfro yr Ysgol Noddfa gyntaf yn Sir Benfro trwy flaenoriaethu a buddsoddi mewn hyfforddiant staff i sicrhau bod anghenion myfyrwyr sy'n ffoaduriaid yn cael eu cefnogi'n effeithiol.

Fe wnaeth yr holl dîm staff yn Noc Penfro gymryd rhan mewn hyfforddiant yn amrywio o ymarfer trawma-wybodus a chefnogi myfyrwyr â Saesneg fel Iaith Ychwanegol, i ddeall gwrthdaro  milwrol a'i effaith ar blant. Fe wnaeth yr ysgol hefyd adolygu'r broses dderbyn a darpariaeth EAL i gynnig gwell cefnogaeth i deuluoedd sy'n chwilio am noddfa.



# Darparu lle *diogel*

Derbyniodd Oasis Cardiff arian o Gronfa Croeso Cenedl Noddfa i gryfhau eu gallu a sicrhau bod ymwelwyr â'u canolfan yn cael mynediad at gymorth ymarferol ac emosiynol.

> Rydw i mor ddiolchgar am yr holl gefnogaeth a gefais; Rwy'n teimlo'n fwy hamddenol ac hapusach ac mae gen i obaith nawr am ddyfodol mwy positif i'm mab a minnau.

Mae ychwanegu at eu tîm Triage wedi eu galluogi i barhau i gynnig croeso cynnes i'r nifer o ymwelwyr cynyddol i'w canolfan fel Annie (nid ei henw iawn). Cafodd Annie, ynghyd â'i mab ifanc, ei rhoi mewn llety yng Nghaerdydd ond oherwydd ei gorbryder roedd hi'n anodd iawn gadael ei hystafell.

Pan gyrhaeddodd Annie Oasis, roedd hi'n teimlo'n unig ac wedi'i llethu ac roedd ei mab yn dawel ac yn tynnu'n ôl. Treuliodd Swyddog Triage yn Oasis amser gydag Annie, yn gwrando arni ac yn rhoi sicrwydd iddi ei bod mewn lle diogel.

Cynigodd y Swyddog Triage gyngor ymarferol ar ysgolion i'w mab a'i helpu i sefydlu apwyntiad cyfreithiwr. Ychwanegwyd nhw hefyd at grwpiau Whatsapp Oasis i dderbyn gwybodaeth am deithiau a gweithgareddau cymdeithasol. Cafodd becyn o nwyddau ymolchi i fenywod a rhywfaint o fwyd i'w mab, a'i annog i ddychwelyd y diwrnod canlynol.

Gadawodd Annie Oasis yn teimlo'n llawer tawelach, ac yn ddiolchgar am yr empathi a gafodd. Roedd hi'n hapus i weld, pan gyrhaeddon nhw'r diwrnod wedyn, bod ei mab yn teimlo'n ddigon cyfforddus i chwarae a rhyngweithio â phlant eraill.



# Stori'r gronfa hyd yma *mewn rhifau*



Wedi derbyn rhoddion o

## £1,255,265

## £700,000

wedi ei roi mewn gwaddol i gefnogi anghenion pobl sy'n chwilio am noddfa yng Nghymru yn y dyfodol

Ceisiadau am grantiau o

## £1,549,300

wedi ei cynnig gan 17 grwp ar hyd Cymru

Dyfarnu

## £455,869

mewn grantiau

- **7** grŵpiau
- **3** grant aml flwyddyn

Cefnogwyd

## 2,615

o bobl sy'n chwilio am noddfa yng Nghymru

Cefnogwyd

## 272

O wirfoddolwyr, a llawer ohonynt yn ceisio am noddfa



# Mae cymaint mwy i'w *wneud o hyd*

Mae'r adroddiad hwn yn dangos yn glir, er ein bod wedi derbyn llawer iawn o roddion eisoes i gefnogi pobl sydd wedi'u dadleoli, mae'r galw am gyllid yn dal yn uchel iawn.

Doedden ni ddim yn gallu cefnogi nifer o brosiectau sydd hefyd yn gwneud gwaith gwych i gefnogi pobl sy'n chwilio am noddfa a cheisio adeiladu bywyd newydd yng Nghymru.

Ein gobaith diffuant yw y bydd yr adroddiad hwn yn annog cefnogwyr eraill i ystyried sut y gallant chwarae rhan mewn sicrhau bod pobl ddadleoledig sy'n cyrraedd Cymru yn cael yr help maent eu angen i wella, ail-adeiladu ac, yn achos y llu o Wcrainiaid a orfodwyd i ffoi oherwydd rhyfel, i ddychwelyd i'w cartref.

Mae angen eich cefnogaeth nawr, yn fwy nag erioed.

I ddarganfod sut y gallwch chi gefnogi cronfa Cenedl Noddfa ymhellach, cysylltwch â ni.

Diolch,

*Katy Hales*

**Cyfarwyddwr Dyngarol**

Community Foundation Wales
St Andrews House
24 St Andrews Crescent
Cardiff
CF10 3DD

02920 379580

www.communityfoundationwales.org.uk
info@communityfoundationwales.org.uk

@foundationwales

@walescf

@communityfoundationwales

@cfwales

Charity Number 1074655
Company Number 03670680
Community Foundation Wales is the trading name of The Community Foundation in Wales